# PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Gwener, 20 Tachwedd 2020** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.M.Penry** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | A.R.Aubrey, C.Galsworthy, J.Hurley, D.Keogh, C.J.Jones, W.F.Griffiths, R.Davies a/ac J.Hale |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Roberts, C.Plowman a/ac A.Lewis |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr E.V.Latham a/ac A.Wingrave |

## 1. GOFAL STRYDOEDD – Y DIWEDDARAF AM WASANAETHAU A AMLYGWYD YN Y BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn amlinellu'r pynciau y gofynnodd Aelodau am ddiweddariad arnynt yn dilyn eu Gweithdy Blaenraglen Waith Strydlun a Pheirianneg diweddar; roedd y pynciau hynny'n cynnwys gwastraff ac ailgylchu, adolygu'r potensial i ehangu'r defnydd o orchmynion diogelu mannau agored cyhoeddus (GDMACau) a mynwentydd.

Gwastraff ac Ailgylchu

Gofynnwyd a allai'r gwasanaeth casgliadau swmpus ailgyflwyno'r ail gerbyd a ychwanegwyd at y gwasanaeth dros dro gan fod galw am gasgliadau swmpus ar hyn o bryd a gallai'r cerbyd ychwanegol leihau'r broblem o dipio anghyfreithlon. Dywedodd swyddogion fod un cerbyd wedi bod yn ddigonol o'r blaen, fodd bynnag, oherwydd bod y gwasanaeth wedi'i atal dros dro rhwng mis Mawrth a mis Mai, roedd ôl-groniad o alw am y gwasanaeth yr oedd angen ymdrin ag ef; roedd y pwysau ar y gwasanaeth, yn ogystal ag ymdrin ag absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'r ôl-groniad o ran galw, yn golygu bod gan y gwasanaeth griw ychwanegol dros dro i helpu gyda'r casgliadau swmpus. Tynnwyd sylw at y ffaith bod angen i'r

gwasanaeth, cyn penodi rhagor o staff, cael rhagor o gerbydau a pharatoi at gyfrifoldeb cyllidebol parhaol, fod yn sicr o ffactorau fel incwm a gwasanaethau cyflenwi; nodwyd y galw penodol hwn fel galw byr, felly ar hyn o bryd ni fyddai angen dau gerbyd drwy gydol y flwyddyn.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd y bu cynnydd yn y galw am y pecyn ailgylchu yn ystod y pandemig; Gofynnodd yr Aelodau a oedd y cyngor wedi gweld cynnydd yn y ffigurau ar gyfer ailgylchu oherwydd hyn. Nodwyd bod swm yr ailgylchu a gasglwyd ar ymyl y ffordd yn tyfu, er enghraifft y llynedd tyfodd y gwastraff bwyd 600 tunnell; fodd bynnag, roedd nifer o ddeunyddiau gwahanol yn effeithio ar berfformiad y cyngor, ac roedd problemau ynghylch ailgylchu'r deunyddiau eraill hyn megis gwastraff coed, a oedd yn effeithio ar lefelau perfformiad. Ychwanegodd Swyddogion fod y ffigurau'n dangos cymysgedd o'r pecyn newydd yn cael ei archebu a phecyn newydd yn lle hen becyn yn cael ei archebu.

Mewn perthynas â Chynnyrch Hylendid Amsugnol (AHP), gofynnwyd a oedd unrhyw gysylltiadau neu systemau ar waith gyda'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd. Nodwyd bod gan y cyngor wasanaeth hylendid ar waith ar gyfer pobl â chyflyrau meddygol yr oedd angen casglu gwastraff penodol iddynt ac nid oeddent yn rhan o gasgliadau'r GIG; cafodd y gwasanaeth ei flaenoriaethu a'i barhau drwy gydol y pandemig a gellid dod o hyd i ragor o fanylion am hyn ar-lein. Cadarnhaodd Swyddogion pe bai angen cysylltu â meysydd gwasanaeth eraill ynghylch y mater hwn y byddent yn hapus i wneud hynny.

Soniodd yr adroddiad fod cyfweliadau PACE yn cael eu cynnal yn y Canolfannau Dinesig; Gofynnwyd i Swyddogion egluro'r rhain yn fanylach. Eglurwyd bod cyfweliadau'r Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) yn cael eu defnyddio i gasglu tystiolaeth droseddol ar gyfer achosion lle'r amheuwyd bod pobl yn cyflawni troseddau amgylcheddol; roedd cyfleusterau wedi'u sefydlu ar gyfer y cyfweliadau hyn, ond oherwydd COVID-19 nid oedd y cyfleusterau hyn yn ddiogel i'w defnyddio mwyach. Dywedwyd bod y mater hwn bellach wedi'i ddatrys a bod ystafelloedd ar gael yng Nghanolfan Ddinesig Castell-nedd y gallai Swyddogion eu trefnu i gynnal cyfweliadau sy'n caniatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a chynnal asesiadau risg.

Adolygiad o'r potensial i ehangu defnydd Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GDMACau)

Hysbyswyd yr Aelodau ei bod yn bosib ehangu cwmpas GDMACau; nododd yr adroddiad y manylion gan gynnwys yr hyn yr oeddent a'r hyn y gallent ei gwmpasu, gan gynnwys yr hyn y byddai angen ei wneud o ran nodi blaenoriaethau ac adnoddau i'w datblygu. Dywedwyd y byddai angen i Aelodau benderfynu sut yr hoffent ddatblygu GDMACau, er enghraifft lle'r oeddent yn teimlo bod cyfle i ymestyn y cwmpas neu os oedd mater penodol yr oedd angen ei ddatrys a oedd yn cael ei drafod ar hyn o bryd; fodd bynnag, byddai angen ystyried y pwyntiau a nodir yn yr adroddiad cyn iddynt gael eu datblygu.

Cafwyd trafodaeth am GDMACau posib ar gyfer meysydd parcio sy'n eiddo i'r cyngor, yn enwedig y meysydd parcio ger y traeth, gan fod Aelodau wedi derbyn nifer o gwynion gan breswylwyr ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y meysydd parcio hyn; gofynnwyd a fyddai'n fuddiol sefydlu GDMAC cyffredinol ar gyfer pob maes parcio sy'n eiddo i'r cyngor ar yr un pryd. Cadarnhawyd y gellid rhoi gorchmynion ar waith ar draws y Fwrdeistref Sirol ar gyfer mannau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai nad oeddent ar dir y cyngor. Dywedodd swyddogion y byddai angen ystyried y ceisiadau'n fanwl ac y byddai'n ofynnol yn ôl y gyfraith gynnal ymgynghoriad gan y byddai angen cyfiawnhau'r materion yr oedd Aelodau'n bwriadu mynd i'r afael â hwy, a byddai angen i'r cyfyngiadau posib fod yn rhesymol ac yn gymesur; byddai angen gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas â'r hyn a oedd yn bosib neu beidio. Soniwyd mai'r Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth (Dave Griffiths) oedd yn gyfrifol am bob maes parcio, felly byddai angen iddo gael ei gynnwys yn fawr yn y broses.

Mynegwyd pryderon ynghylch y problemau posib a allai godi pe bai GDMACau yn cael eu cyflwyno ar draws holl feysydd parcio'r cyngor, er enghraifft diogelwch staff y cyngor a oedd ar hyn o bryd yn monitro'r GDMAC sydd ar waith yng nglan môr Aberafan; roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater i'r heddlu, p'un a oedd GDMAC ar waith ai peidio. Awgrymwyd y byddai Swyddogion, ar ran y Pwyllgor, yn gofyn i'r Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol corfforaethol godi'r mater o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn meysydd parcio ar draws y Fwrdeistref Sirol mewn cyfarfod y Grŵp Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn y dyfodol; soniwyd bod yr Heddlu'n mynychu'r cyfarfodydd, felly gellid cael eu hadborth ar yr hyn a fyddai'n angenrheidiol ac yn gyfiawn yn eu barn nhw.

Gofynnwyd i Swyddogion a fyddai gwybodaeth am y GDMACau presennol yn cael ei harddangos ar wefan y cyngor, gan esbonio i'r

cyhoedd pam eu bod ar waith ynghyd â chyngor y Swyddfa Gartref. Nodwyd bod y GDMACau sy'n bodoli ar hyn o bryd o amgylch glan môr Aberafan wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar a bod proses ymgynghori lawn wedi'i chynnal, a oedd yn cynnwys y cyhoedd; Roedd y Cabinet wedi cytuno iddynt gael eu hymestyn am dair blynedd arall a gellid dod o hyd i'r manylion ar wefan y cyngor.

Nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd nad oedd y cyfyngiadau'n berthnasol i bobl anabl fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os yw'r person yn dioddef o anabledd a fyddai'n ei atal rhag casglu baw cŵn; Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith bod llawer o bobl oedrannus ddiamddiffyn nad oeddent wedi'u cofrestru'n anabl a oedd yn ei chael hi'n anodd casglu eu baw cŵn, a gofynnodd a oedd y mater hwn wedi'i gynnwys yn y Ddeddf. Nodwyd bod y geiriad a gynhwyswyd yn yr adroddiad y enghraifft gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr a bod y geiriad yn berthnasol i'r cyfyngiad yr oedd ganddyn nhw ar waith; pe bai Aelodau'n penderfynu ymchwilio i GDMACau newydd, gellid ystyried y mater hwn wrth symud ymlaen.

Awgrymwyd y gallai Aelodau godi unrhyw faterion neu wneud unrhyw geisiadau ynglŷn â GDMACau yn y cymorthfeydd Gofal Stryd sydd ar y gweill.

Mynwentydd

Roedd y siart galw am gladdu a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn dangos gostyngiad mawr (-20) wrth gymharu â Gorffennaf 2019 i Orffennaf 2020; Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw reswm penodol dros hyn. Cadarnhaodd swyddogion fod lefelau claddedigaethau wedi cynyddu a gostwng dros y blynyddoedd yn hanesyddol, ac efallai bod mwy o bobl yn dewis amlosgi yn lle.

## 2. <u>BLAENRAGLEN WAITH 2020-21</u>

Nododd yr Aelodau'r Blaenraglen Waith Craffu Strydlun a Pheirianneg ar gyfer 2020/21, a boblogwyd gan y Pwyllgor yn eu Gweithdy Blaenraglen Waith diweddar.

Soniodd yr Aelodau y byddai rhai gwasanaethau megis gorfodi a gwastraff yn llawer mwy effeithiol pe baent yn cael eu huno gan y gallai hyn annog mwy o gysylltu o fewn y gymuned. Cadarnhawyd bod Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio (Nicola Pearce) wedi gofyn i'r Pennaeth Gofal Stryd (Mike Roberts) a Phennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (Ceri Morris) edrych ar y rhyngwyneb rhwng rheoli plâu ac iechyd yr amgylchedd a phenderfynu a ddylid dod â'r

ddwy elfen hynny at ei gilydd; mae'r trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

## 3. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Aelodau at ddibenion gwybodaeth; Nodwyd y Blaenraglen Waith.

**CADEIRYDD**